Fferm Wynt Alltraeth Awel y Môr

Cyfeirnod yr Arolygiaeth Gynllunio: EN010112

Rheol 13(6), Rheolau Cynllunio Seilwaith (Trefniadau Archwilio) 2010

**Hysbysiad o Wrandawiadau Caffael Gorfodol a Gwrandawiadau Mater Penodol**

Hysbysir drwy hyn, y bydd yr Arolygiaeth Gynllunio (ar ran yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol) yn cynnal y Gwrandawiadau canlynol, ar y dyddiadau, ar yr amseroedd ac yn y lleoliadau isod, er mwyn archwilio'r cais a wnaed gan Fferm Wynt Alltraeth Awel y Môr Cyfyngedig (yr "Ymgeisydd") o Windmill Hill Business Park, Whitehill Way, Swindon, Wiltshire, Y Deyrnas Unedig, SN5 6PB, ar gyfer Gorchymyn Cydsyniad Datblygu ('DCO') o dan Adrannau 14 ac 15 o Ddeddf Cynllunio 2008, fel y'i diwygiwyd ('y Ddeddf'). Cafodd y Cais i'r Ysgrifennydd Gwladol ei gyflwyno drwy'r Arolygiaeth Gynllunio ('yr Arolygiaeth') ar 20/04/2022, a chafodd ei dderbyn i'w archwilio ar 18/05/2022. Mae'r Arolygiaeth wedi nodi'r cyfeirnod canlynol ar gyfer y cais: EN010112.

| Dyddiad | Gwrandawiad | Amser Dechrau | Lleoliad | Mynediad a pharcio |
|---|---|---|---|---|
| Dydd Mawrth 28 Chwefror 2023 | Gwrandawiad Caffael Gorfodol | 09:30am<br><br>Seddi ar gael/ Trefniadau Cynhadledd o: 09:00am | Digwyddiad ar y we (Microsoft Teams) ac ystafell y Neuadd, Venue Cymru, Y Promenâd, Llandudno LL30 1BB | Mae gan Venue Cymru faes parcio Talu ac Arddangos y tu ôl i'r adeilad, gyda mannau parcio penodol ar gyfer pobl anabl i'r chwith o'r brif fynedfa. Mae llefydd parcio ar gael hefyd ar y Promenâd lle mae'n rhaid talu ac arddangos tan 4pm, ac yna mae am ddim ar ôl hynny. |
| Dydd Mercher 1 Mawrth 2023 | Gwrandawiad Mater Penodol ar effeithiau amgylcheddol ar y môr (os oes angen) ac ar y Gorchymyn Cydsyniad Datblygu drafft | 09:30am<br><br>Seddi ar gael/ Trefniadau Cynhadledd o: 09:00am | Digwyddiad ar y we (Microsoft Teams) ac ystafell y Neuadd, Venue Cymru, Y Promenâd, Llandudno LL30 1BB | |

Bydd y Gwrandawiadau hefyd yn cael eu cynnal yn rhithiol, gan ddefnyddio Microsoft Teams, a bydd modd ymuno â'r gwrandawiadau hyn drwy unrhyw borwr rhyngrwyd safonol neu drwy ddeialu i mewn dros y ffôn. Mae rhagor o wybodaeth am y Gwrandawiadau, gan gynnwys sut a phryd i gofrestru i fod yn bresennol, ar gael ar dudalen y Prosiect ar wefan Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol yr Arolygiaeth.
Dilynwch y ddolen ganlynol: https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/cy/projects/fferm-wynt-alltraeth-awel-y-mor/?ipcsection=overview

**Covid-19:**

Peidiwch â mynychu unrhyw wrandawiadau 'wyneb yn wyneb' os oes gennych chi unrhyw symptomau neu os ydych chi wedi cael canlyniad positif/wedi bod mewn cysylltiad ag unrhyw un sydd wedi cael canlyniad positif. Rhowch wybod i'r Tîm Achosion os byddwch yn cael canlyniad positif ar ôl mynychu digwyddiad wyneb yn wyneb.

Dylai Partïon â Diddordeb a Phobl yr Effeithir Arnynt, sy'n dymuno siarad yn unrhyw un o'r gwrandawiadau a restrir uchod, roi gwybod ar bapur i'r Arolygiaeth Gynllunio erbyn **Dyddiad Cau 6, Dydd Llun 20 Chwefror 2023** drwy anfon e-bost at: awelymor@planninginspectorate.gov.uk neu ffonio: 0303 444 5000. Mae pob Dyddiad Cau sy'n berthnasol i'r cais wedi'u nodi yn yr Amserlen Archwilio, sydd wedi'i chynnwys yn Atodiad A llythyr Rheol 8 yr Arolygiaeth Gynllunio

dyddiedig 27 Medi 2022, sydd ar gael i'w weld ar dudalen y prosiect ar wefan yr Arolygiaeth Gynllunio.
Sylwch y bydd gwrandawiadau'n cael eu recordio, a bydd y recordiadau'n cael eu cyhoeddi ar dudalen y prosiect ar wefan yr Arolygiaeth cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl pob gwrandawiad.

Rhoddir cyhoeddusrwydd i unrhyw wrandawiadau pellach fel sy'n ofynnol gan yr Arolygiaeth a Rheolau Cynllunio Seilwaith (Trefniadau Archwilio) 2010.

I gael rhagor o wybodaeth am y gwrandawiadau hyn, i archwilio'r Cais ac i weld yr amserlen lawn (ac unrhyw ddiwygiadau i hynny), gan gynnwys sut a phryd i gofrestru i siarad yn y gwrandawiadau a sut a phryd i gyflwyno sylwadau ysgrifenedig, cysylltwch â'r Arolygiaeth.

**Crynodeb o'r Prosiect:**

Mae'r Cais yn ymwneud ag adeiladu, gweithredu, cynnal a chadw a datgomisiynu fferm wynt alltraeth sydd tua 10.5 cilometr oddi ar arfordir Gogledd Cymru ym Môr Iwerddon; gan gynnwys hyd at 50 o gynhyrchwyr tyrbinau gwynt a seilwaith cysylltiedig sy'n gwneud glanfa yn Nhraeth Ffrith, i'r dwyrain o'r Rhyl, ac yn Sir Ddinbych, gosod ceblau tanddaearol ac adeiladu is-orsaf drydanol a seilwaith cysylltiedig er mwyn cysylltu'r datblygiad ag is-orsaf bresennol y Grid Cenedlaethol ym Modelwyddan (y "Prosiect").

Bydd y Gorchymyn Cydsyniad Datblygu arfaethedig yn awdurdodi gwaith adeiladu, gweithredu a datgomisiynu'r elfennau ar y môr ac ar y tir, ymhlith pethau eraill, i gyflenwi fferm wynt alltraeth sy'n cynnwys: gorsaf gynhyrchu tyrbin gwynt alltraeth gyda chapasiti allbwn trydan gros o dros 350 megawat, sy'n cynnwys hyd at 50 o eneraduron tyrbin gwynt gyda sylfeini cysylltiedig, diamedr rotor o 306m ar y mwyaf ac uchder i'r brig o 332m uwchlaw Penllanw Cymedrig y Gorllanw (MHWS) ar y mwyaf; hyd at ddau blatfform is-orsaf alltraeth gyda sylfeini cysylltiedig; un mast meterolegol gyda sylfeini cysylltiedig, bwiau LiDAR a bwiau angori a bwiau mordwyo; gosod cebl o dan y môr (hyd at 10km o hyd) ar Fferm Wynt Alltraeth Gwynt y Môr; rhwydwaith o geblau rhyng-aráe (hyd at 116km o hyd) o dan y môr, gan gynnwys diogelu ceblau, cysylltu'r tyrbinau gwynt â'i gilydd ac â phlatfformau'r is-orsaf alltraeth, gan gynnwys croesfannau ceblau; hyd at ddwy gylched ceblau o dan y môr gan gynnwys croesfannau ceblau, diogelu ceblau, o blatfformau'r is-orsafoedd alltraeth i'r traeth, gyda chyfanswm hyd y cebl oddeutu 70km; argaeau coffr a gwaith gosod heb ddefnyddio ffosydd ar y lanfa; a gosod deunyddiau i atal erydu, yn ôl yr angen, ar gyfer sylfeini a cheblau.

Byddai'r Gorchymyn Cydsyniad Datblygu hefyd yn awdurdodi caffael tir yn orfodol, buddiannau mewn tir a hawliau dros dir, a'r pŵer i ddefnyddio tir yn barhaol a dros dro ar gyfer adeiladu, gweithredu, cynnal a chadw a datgomisiynu fferm wynt alltraeth gan gynnwys: caffael tir a/neu hawliau'n barhaol ac yn orfodol ar gyfer y Prosiect; diystyru hawddfreintiau a hawliau eraill dros dir y Prosiect neu sy'n effeithio ar dir y Prosiect; cymhwyso a/neu ddatgymhwyso deddfwriaeth sy'n berthnasol i'r Prosiect gan gynnwys, *inter alia*, deddfwriaeth sy'n ymwneud â chaffael gorfodol; mannau adeiladu a ffyrdd mynediad dros dro, ynghyd â gwaith i sicrhau mynediad i gerbydau a/neu i gerddwyr ar gyfer y Prosiect, gan gynnwys addasiadau i bontydd a thynnu ac adfer grwynau; ac unrhyw ddarpariaethau ategol, achlysurol a chanlyniadol, trwyddedau a chaniatadau o'r fath ag sy'n angenrheidiol a/neu'n gyfleus.

Gallwch gael rhagor o wybodaeth am y Cais gan dîm prosiect Awel y Môr yn RWE Renewables UK, drwy'r manylion a ddarperir isod:

**Post: Fferm Wynt Alltraeth Awel y Môr**

Fferm Wynt Alltraeth Awel y Môr, RWE Renewables UK, Windmill Hill Business Park, Whitehill Way, Swindon, Wiltshire, SN5 6PB

**E-bost:** awelymor@rwe.com

**Rhif ffôn:** 0800 1978232

**Copïau o Ddogfennau'r Cais**

Mae'r ffurflen gais a'r dogfennau, y mapiau a'r cynlluniau sy'n cyd-fynd â'r cais, gan gynnwys y Datganiad Amgylcheddol a'r Gorchymyn Cydsyniad Datblygu drafft, ar gael i'w gweld yn electronig ac i'w llwytho i lawr yn rhad ac am ddim, ar dudalen y prosiect ar wefan yr Arolygiaeth Gynllunio (ewch i'r tab 'Dogfennau'): https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/cy/projects/fferm-wynt-alltraeth-awel-y-mor/?ipcsection=overview

Mae gwefan yr Arolygiaeth Gynllunio hefyd yn cynnwys copïau o'r holl ddogfennau yn y broses Archwilio, gan gynnwys cyflwyniadau gan bawb sydd â diddordeb, penderfyniadau gweithdrefnol a'r amserlen ar gyfer y gwaith Archwilio.

Mae dogfennau'r Cais yn unig hefyd ar gael yn yr adran Cais am Orchymyn Cydsyniad Datblygu ar wefan yr Ymgeisydd yma: https://awelymor.cymru/dco-application/?lang=cy

Os oes angen dulliau eraill arnoch i archwilio dogfennau'r cais, ffoniwch yr ymgeisydd (mae'r manylion isod). Gellir gofyn am gopïau caled o ddogfennau'r cais, ond codir uchafswm ffi o £8,000, a TAW am bob copi, i dalu am gostau argraffu a danfon. Gellir gofyn am fformatau eraill, dogfennau electronig neu gopïau caled yn y ffyrdd canlynol:

E-bost: awelymor@rwe.com

Rhif ffôn: 0800 1978232

Dim ond copïau o ddogfennau'r Cais ar ddyfeisiau USB y gellir eu darparu am ddim ac maent ar gael dim ond i chi ofyn i'r Ymgeisydd.

**Awel y Môr**

Awel y Môr Offshore Wind Farm

Planning Inspectorate Reference Number: EN010112

Rule 13(6) Infrastructure Planning (Examination Procedure) Rules 2010

**Notice of Compulsory Acquisition and Issue Specific Hearings**

Notice is hereby given that, at the dates, times and locations set out below, the following Hearings will be held by the Planning Inspectorate (on behalf of the Secretary of State for Business, Energy and Industrial Strategy) for the examination of the application made by Awel y Môr Offshore Wind Farm Limited (the "Applicant") of Windmill Hill Business Park, Whitehill Way, Swindon, Wiltshire, United Kingdom, SN5 6PB, for a Development Consent Order ('DCO') under Sections 14 and 15 of the Planning Act 2008, as amended ('the Act'). The Application was submitted to the Secretary of State, via the Planning Inspectorate ('the Inspectorate') on 20/04/2022, and accepted for examination on 18/05/2022. The reference number applied to the application by the Inspectorate is EN010112.

| Date | Hearing | Start Time | Venue | Access and parking |
|---|---|---|---|---|
| Tuesday 28 February 2023 | Compulsory Acquisition Hearing (CAH) | 09:30AM<br><br>Seating available/ Arrangements Conference from: 09:00AM | Virtual event (Microsoft Teams) and the Hall A Room, Venue Cymru, Promenade, Llandudno LL30 1BB | Venue Cymru operates a Pay and Display car park at the rear of the building, with designated disabled parking bays to the left of the main entrance. Parking is also available on the Promenade which is Pay and Display until 4PM, to which then it is free of charge. |
| Wednesday 1 March 2023 | Issue Specific Hearing (ISH4) on offshore environmental effects (if necessary) and the draft Development Consent Order | 09:30AM<br><br>Seating available/ Arrangements Conference from: 09:00AM | Virtual event (Microsoft Teams) and the Hall A Room, Venue Cymru, Promenade, Llandudno LL30 1BB | |

The Hearings will also be held as virtual events using Microsoft Teams, and it will be possible to join them via any standard internet browser or alternatively by telephone dial-in. More information on the Hearings, including how and when to register to attend, is available on the Project page of the Inspectorate's National Infrastructure Planning website. Please refer to the following link: https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/projects/wales/awel-y-mor-offshore-wind-farm/?ipcsection=overview

**Covid-19:**

Please do not attend any physical 'in person' hearings if you have been experiencing any symptoms or tested positive, or have been in contact with anyone testing positive. Please advise the Case Team if you test positive after attending a physical event.

Interested Parties and Affected Persons wishing to speak at any of the hearings listed above should notify the Planning Inspectorate in writing by **Deadline 6, Monday 20 February 2023** by emailing: awelymor@planninginspectorate.gov.uk or calling: 0303 444 5000. All Deadlines relating to the application are set out in the Examination Timetable, which is included in Annex A of the Planning Inspectorate's Rule 8 letter dated 27 September 2022, which is available to view on the project page of the Planning Inspectorate's website.

Please note that hearings will be recorded, and the recordings will be published on the project page of the Inspectorate’s website as soon as practicable after each hearing has taken place.

Any further hearings will be publicised as required by the Inspectorate and by the Infrastructure Planning (Examination Procedure) Rules 2010.

For more Information on these hearings, the examination of the Application and full timetable (and any amendments to it), including how and when to register to speak at the hearings and how and when to make written submissions, please contact the Inspectorate.

**Summary of the Project:**

The Application relates to the construction, operation, maintenance and decommissioning of an offshore wind farm, located approximately 10.5 kilometres off the coast of North Wales in the Irish Sea; including up to 50 wind turbine generators and associated infrastructure making landfall at Ffrith Beach, east of Rhyl, and in the County of Denbighshire, the installation of underground cables and the construction of an electrical substation and associated infrastructure in order to connect the development to the National Grid’s existing substation at Bodelwyddan (the "Project").

The proposed DCO will, amongst other things, authorise the construction, operation and decommissioning of offshore and onshore elements to supply an offshore wind farm, including: an offshore wind turbine generating station with a gross electrical output capacity of over 350 megawatts, comprising up to 50 wind turbine generators with associated foundations, a maximum rotor diameter of 306m and a maximum tip height of 332m above Mean High Water Springs (MHWS); up to two offshore substation platforms with associated foundations; one meteorological mast with associated foundations, LiDAR buoys, mooring buoys and navigational buoys; installation of a subsea cable (up to 10km in length) to the Gwynt y Môr Offshore Wind Farm; a network of subsea inter-array cables (up to 116km in length) including cable protection, connecting the wind turbines to each other and to the offshore substation platforms including cable crossings; up to two subsea cable circuits including cable crossings, cable protection, from the offshore substation platforms to shore, with a total cable length of approximately 70km; cofferdams and trenchless installation works at landfall; and scour protection, as required, for foundations and cables.

The DCO would also authorise the compulsory acquisition of land, interests in land and rights over land, and the powers to use land permanently and temporarily for the construction, operation, maintenance and decommissioning of an offshore wind farm including: the permanent and compulsory acquisition of land and/or rights for the Project; overriding of easements and other rights over or affecting land for the Project; the application and/or disapplication of legislation relevant to the Project including, inter alia, legislation relating to compulsory acquisition; temporary construction areas and access roads together with works to secure vehicular and/or pedestrian means of access for the Project, including alterations to bridges and removal and remediation of groynes; and such ancillary, incidental and consequential provisions, permits and consents as are necessary and/or convenient.

Further information about the Application may be obtained from the Awel y Môr project team at RWE Renewables UK, through the details provided directly below:

**Post: Awel y Môr Offshore Wind Farm**

Awel y Môr Offshore Wind Farm, RWE Renewables UK, Windmill Hill Business Park, Whitehill Way, Swindon, Wiltshire, SN5 6PB

**Email:** awelymor@rwe.com

**Phone:** 0800 1978232

**Copies of Application Documents**

The application form and its accompanying documents, maps and plans, including the Environmental Statement and draft DCO, are available to view electronically and download, free-

of-charge, on the project page of the Planning Inspectorate's website (please refer to the 'Documents' tab): https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/projects/wales/awel-y-mor-offshore-wind-farm/

The Planning Inspectorate's website also includes copies of all documents in the Examination process, including submissions by all interested persons, procedural decisions and the timetable for the Examination.

The Application documents only are also available from the DCO Application section of the Applicant's website here: https://awelymor.cymru/dco-application/

If you require alternative methods for inspection of the application documents, please telephone the applicant using the details provided below. Hard copies of the application documents can be requested, but will be subject to a maximum charge of £8,000, plus VAT for each copy, to cover printing and delivery costs. Requests for alternative formats, electronic or hard copy documents can be made in the following ways:

Email: awelymor@rwe.com

Phone: 0800 1978232

USB device copies of the Application documents only can be provided free-of-charge and are available upon request to the Applicant.

**Awel y Môr**